Os ydych yn cwblhau'r ffurflen hon fel cynrychiolydd personol person ymadawedig mewn perthynas â Ffurflen Dreth Ymddiriedolaeth ac Ystâd sy'n cwmpasu materion treth ystâd yr ymadawedig ar ôl y farwolaeth, rhowch enw a chyfeirnod treth yr ymadawedig yn y blychau isod ac yna cwblhewch flychau 25.5, 25.6, 25.7, 25.8, 25.9 a 25.10 (fel y bo'n briodol).

Os ydych yn cwblhau'r ffurflen hon mewn cysylltiad â Ffurflen Dreth unigolyn gan gynnwys fel cynrychiolydd personol person ymadawedig, mewn perthynas â'r cyfnod hyd at ddyddiad y farwolaeth, cwblhewch bob blwch (fel y bo'n briodol).

Enw

Cyfeirnod treth

Os bydd angen cymorth arnoch, chwiliwch am rifau'r blychau yn y Nodiadau.

Codiannau treth sy'n codi o gynilion pension y DU neu bensiwn tramor

Os ydych yn agored i godiannau treth sy'n codi o gynilion pension y DU neu bensiwn tramor, cwblhewch flychau 25.1 i 25.7.
Ni ddylech nodi treth ar bensiynau, blwydd-daliadau ymddeol, cyfandaliadau mân faterion ymddeol a chyfandaliadau dirwyn pensiwn i ben yma. Dylech nodi'r rhain yng Nghwestiwn 11 eich Ffurflen Dreth.

■ *Pensiynau – Lwfans Oes sydd dros ben*
Gweler tudalennau PEN1 i PEN3 yn y Nodiadau

- Gwerth y buddiannau pensiwn sy'n uwch na'r Lwfans Oes sydd ar gael, ac a gymerwyd gennych ar ffurf cyfandaliad — **25.1** £
- Gwerth y buddiannau pensiwn sy'n uwch na'r Lwfans Oes sydd ar gael, **nas** cymerwyd ar ffurf cyfandaliad — **25.2** £
- Treth ar Lwfans Oes a dalwyd gan eich cynllun pensiwn — **25.3** £

■ *Pensiynau – Lwfans blynyddol sydd dros ben*
Gweler tudalen PEN3 yn y Nodiadau

- Swm a gynilwyd ar gyfer eich pensiwn yn y cyfnod a gwmpesir gan y Ffurflen Dreth hon sy'n uwch na'r Lwfans Blynyddol — **25.4** £

■ *Pensiynau – taliadau nas awdurdodwyd*
Gweler tudalen PEN4 yn y Nodiadau

- Swm y taliad nas awdurdodwyd o gynllun pensiwn, nad yw'n agored i Ordal — **25.5** £
- Swm y taliad nas awdurdodwyd o gynllun pensiwn, sy'n agored i Ordal — **25.6** £
- Treth dramor a dalwyd ar daliad nas awdurdodwyd (mewn £ sterling) — **25.7** £

Cyfandaliadau trethadwy o gynlluniau pensiwn tramor

Os derbynioch ad-daliad cyfraniadau o gynllun pensiwn tramor am wasanaeth byr sy'n drethadwy, cwblhewch flwch 25.8. Os cwblhewch flwch 25.8, dylech gynnwys ffigur ym mlwch 25.10 hefyd, os yw'n briodol. Os derbynioch gyfandaliad budd-dal marwolaeth trethadwy o gynllun pensiwn tramor, cwblhewch flychau 25.9 a 25.10. Os derbynioch daliadau sy'n dod o dan flwch 25.8 yn ogystal â 25.9, dylech ychwanegu'r ffigurau ar gyfer y trethi tramor (os o gwbl) at ei gilydd a chynnwys y cyfanswm ym mlwch 25.10.

- Ad-daliad trethadwy ar gyfer cyfraniadau am wasanaeth byr, o gynllun pensiwn tramor *- gweler tudalennau PEN4 a PEN5 yn y Nodiadau* — **25.8** £
- Cyfandaliad budd-dâl marwolaeth trethadwy o gynllun pensiwn tramor *- gweler tudalen PEN5 yn y Nodiadau* — **25.9** £
- Treth dramor a dalwyd *- gweler tudalen PEN6 yn y Nodiadau* — **25.10** £

SA125 Cymraeg